# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Cwmcynfelin Ltd**

**Plas Cwmcynfelin**
**Clarach**
**Aberystwyth**
**SY23 3DN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/02/2025

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Plas Cwmcynfelin Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Plas Cwmcynfelin Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 53 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Medi 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn cael gofal nyrsio effeithiol iawn yn y gwasanaeth. Cânt eu cefnogi gan dîm o staff profiadol a chyson, y maent wedi meithrin cydberthnasau hynod gadarnhaol â nhw. Wrth drafod y gwasanaeth, dywedodd cynrychiolydd wrthym, *"This place is excellent".* Mae'r arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol wedi helpu i greu diwylliant cyfeillgar a gofalgar yn y gwasanaeth.

Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw i safon uchel iawn, ac mae'r bobl yn teimlo'n hamddenol yn yr ardaloedd gwahanol ym mhob rhan o'r adeilad. Mae'r ardaloedd cymunedol yn olau, yn ffres ac yn gyfforddus. Mae'r ardaloedd wedi'u trefnu'n greadigol er mwyn galluogi'r bobl i ryngweithio â'i gilydd, mewn grwpiau llai neu i fwynhau amser tawel ar eu pen eu hunain.

Yr Unigolyn Cyfrifol yw rheolwr y gwasanaeth hefyd. Mae'n gweithio yn y cartref ac yn adnabod y bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff yn dda. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gwella ansawdd y gwasanaeth drwy ddadansoddi gwybodaeth o archwiliadau amrywiol ac adborth y bobl o'i hadroddiadau ar ei hymweliadau.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch gan y tîm o staff cyfeillgar a phrofiadol. Mae'r ethos sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn golygu y caiff amgylchiadau unigol y bobl eu hystyried. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gadw mor iach â phosibl am fod y rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'r bobl yn gwneud y pethau sydd o bwys iddynt, fel bod yn rhan o'u cymuned leol a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref. Mae dull y gwasanaeth o ganolbwyntio ar deuluoedd yn helpu'r bobl i gynnal y cydberthnasau pwysicaf â'u hanwyliaid. Dywedodd cynrychiolydd wrthym, *“You know it’s good because it’s always so clean, welcoming and the ethos is so friendly”.*

Mae'r gwasanaeth yn parchu dewisiadau diwylliannol y bobl ac yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae hyn yn golygu ei fod yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg a gwneir pob ymdrech i sicrhau y gall y bobl dderbyn cymorth yn eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn gan fod prosesau recriwtio diogel yn cael eu dilyn a bod rhaglen sefydlu ar waith. Mae gan y staff nyrsio rifau adnabod cyfredol â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ac mae'r gweithwyr gofal yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir gan fod rhaglen hyfforddiant a datblygiad parhaus y gwasanaeth yn paratoi'r staff i ddiwallu anghenion unigol. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, maent yn defnyddio polisi drws agored yr Unigolyn Cyfrifol yn aml, ac maent yn hyderus i godi unrhyw faterion â'r cyrff perthnasol. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn siarad â'r Unigolyn Cyfrifol neu'r Cyfarwyddwr ac maent yn hyderus i godi unrhyw bryderon.

Mae digon o le yn yr adeilad, mae'n gyfforddus ac mewn cyflwr da iawn. Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd eu hunain fel y mynnant. Mae gwahanol ardaloedd ar gael i'r bobl wneud y pethau y maent yn eu mwynhau, er enghraifft, cymdeithasu â'i gilydd, darllen, gwylio'r teledu a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r gerddi hygyrch yn cael eu defnyddio'n dda gan y bobl i wneud pethau sy'n eu helpu i gadw mor iach â phosibl.

Mae gan y bobl lais ac maent yn cyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg gan eu bod yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol ac yn siarad â hi yn rheolaidd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn defnyddio archwiliadau ansawdd gwahanol sy'n nodi unrhyw wersi i'w dysgu, meysydd i'w gwella ac yn datblygu cynllun gweithredu sydd o fudd i'r gwasanaeth cyfan. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn nodi meysydd i'w gwella ar ôl ymgynghori â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal nyrsio hynod effeithiol a gânt. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio sensitif a chyfeillgar rhwng y bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff. Mae pob aelod o'r staff yn parchu'r bobl ac yn eu deall fel unigolion ac yn helpu i greu diwylliant teuluol. Dywedodd y bobl wrthym, *“The staff are great, they smile all of the time and are always so happy”* ac *“I’m very happy here. The girls (care workers) are great and really look after me”*. Mae'r gweithwyr gofal brwdfrydig yn gadarnhaol am eu rôl. Dywedodd un ohonynt wrthym, *“The people here are wonderful”.* Mae'r cynrychiolwyr yn disgrifio'r gweithwyr gofal fel unigolion proffesiynol, gofalgar a chyfeillgar; dywedodd un ohonynt wrthym, “*They are like my extended family*”.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod y cynlluniau personol yn llawn gwybodaeth, yn berthnasol ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bob person. Mae'r cynlluniau unigol effeithiol yn helpu i roi arweiniad i'r gweithwyr gofal er mwyn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau iechyd a llesiant. Mae'r asesiadau risg yn helpu'r bobl i gadw mor ddiogel ac iach â phosibl. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau a roddir ar y bobl yn cael eu gwneud yn gyfreithiol, a bod y ddogfennaeth gywir ar waith. Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys wrth ofalu am y bobl. Roedd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld yn gadarnhaol am y gwasanaeth ac am y cydberthnasau gwaith effeithiol sydd ganddo â'r staff. Caiff y cynlluniau eu hadolygu bob mis er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn canolbwyntio ar anghenion newidiol y bobl. Mae'r tîm nyrsio yn ymateb i unrhyw newidiadau i anghenion y bobl ac yn dogfennu'r cyngor a roddir gan weithwyr iechyd proffesiynol yn glir. Mae nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a gynlluniwyd a roddwyd ac mae'r asesiadau nyrsio manwl yn cofnodi'r driniaeth benodol a gynigiwyd. Mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff dogfennaeth ei chwblhau i safon uchel a gwelsom ofal yn cael ei ddarparu'n unol â dewisiadau'r bobl.

Mae gweithiwr gofal dynodedig yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau rheolaidd fel pobi, aromatherapi, therapi hel atgofion, trefnu blodau a chanu. Mae gweithgareddau ychwanegol yn cael eu cynnal i hybu iechyd corfforol. Dywedwyd wrthym fod y bobl yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau ymarfer corff, ffisiotherapi a chiropodi. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod gwasanaethau crefyddol yn cael eu cynnal bob mis, a dywedodd person sy'n byw yn y cartref wrthym, *“My vicar visits every month and that’s really important for me”.* Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael pleser o allu gweld y gerddi ac mae'r pyrth bwydo adar sydd wedi'u gosod yn ofalus yn denu amrywiaeth o fywyd gwyllt i'r ffenestri i'r bobl fwynhau eu gwylio. Mae gan y gwasanaeth ei drafnidiaeth hygyrch ei hun er mwyn helpu'r bobl i gadw mewn cysylltiad â'u cymuned leol. Gall y bobl dreulio amser gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau yn eu hystafelloedd eu hunain, yn yr ardaloedd cymunedol tawel neu yn y gerddi.

Mae'r systemau ar gyfer storio, rhoi a chofnodi meddyginiaethau yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol. Mae'r nyrsys yn sicrhau y caiff meddyginiaeth ei

rheoli'n briodol ac maent yn cymryd amser i roi'r dosau cywir o feddyginiaeth i'r bobl ar yr amser cywir. Mae archwiliadau dyddiol yn sicrhau y caiff problemau o ran meddyginiaethau eu nodi'n gyflym, y gweithredir arnynt ac y rhoddir gwybod amdanynt yn briodol.

## Yr Amgylchedd

Mae dau adeilad ar wahân yn rhan o'r cartref, sef y prif dŷ a'r cerbyty. Mae'r bobl yn gyfforddus ac yn gartrefol iawn yn yr amgylcheddau hyn sy'n cynnig digon o le iddynt. Ceir amrywiaeth o ardaloedd cymunedol i'r bobl gymdeithasu â'i gilydd, gwylio'r teledu, neu ymlacio yn y lolfeydd tawelach. Mae'r darparwr yn addurno ardaloedd o'r adeilad mewn ffordd greadigol gyda ffotograffau pwysig y mae'r bobl yn eu defnyddio i'w helpu i deimlo'n gartrefol a'u bod mewn amgylchedd cyfarwydd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r golygfeydd o'r gerddi a'r ardaloedd cyfagos a'u bod yn mwynhau gwylio'r bywyd gwyllt yn y gerddi yn fawr. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ymweld a dywedodd cynrychiolwyr y bobl wrthym eu bod bob amser yn cael croeso cynnes. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, *“The home and the view is so beautiful”.* Mae'r bobl yn cael eu hannog i bersonoli eu hystafelloedd cymaint â phosibl gyda'u dodrefn, eu ffotograffau a'u hornamentau eu hunain.

Mae cyfarpar ar gael i gefnogi symudedd, diogelwch, cysur ac annibyniaeth y bobl ac mae'n gweithio'n effeithiol. Caiff archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd eu cwblhau o'r eiddo drwy gydol y flwyddyn. Mae'r trefniadau ar gyfer profi'r cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol. Mae'r darparwr wrthi'n cwblhau'r gwaith a nodwyd gan y swyddog tân i sicrhau bod yr adeilad yn cydymffurfio â'r rheoliadau tân. Mae'r Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra at yr unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Mae gan y darparwr raglen uwchraddio dreigl, a chaiff y cartref ei gynnal a'i gadw i safon uchel iawn gan y tîm cadw tŷ dynodedig. Mae'r systemau cynnal a chadw yn effeithiol a chaiff unrhyw faterion o ran yr adeilad neu'r cyfarpar eu datrys yn gyflym.

Rhoddwyd sgôr hylendid bwyd o 5 i'r gegin ac mae'r bobl yn mwynhau gallu dewis o blith amrywiaeth o brydau cartref wedi'u paratoi'n ffres. Mae staff y gegin yn ymwybodol o ddewisiadau unigol. Ceir bwydlen dreigl sefydlog ond mae dewisiadau amgen ar gael os gofynnir amdanynt. Mae cyflenwad parhaus o ddiodydd a byrbrydau ar gael i'r bobl yn y brif lolfa a gallant fwynhau gwydraid o win neu gwrw drwy ofyn amdano. Wrth drafod y bwyd, dywedodd cynrychiolydd wrthym, *“[Person] really enjoys the food and always has plenty to drink”.*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Yr Unigolyn Cyfrifol yw rheolwr y gwasanaeth hefyd. Mae'n goruchwylio'r gwasanaeth yn rhagorol, yn bresennol yn y cartref bob dydd ac yn adnabod y bobl yn dda. Mae'r gweithwyr gofal yn disgrifio'r Unigolyn Cyfrifol fel unigolyn sy'n hawdd mynd ati a dywedodd un ohonynt wrthym, *“They are so supportive. Any problems we can go to the office and have a chat with them”.* Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn llunio adroddiad ar ei hymweliad bob tri mis, gan adolygu dogfennaeth allweddol a thrafod ansawdd y gwasanaeth â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff. Caiff cynllun gweithredu ei lunio i'w helpu i wella ansawdd y gwasanaeth yn barhaus.  Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis yn cynnwys amrywiaeth o adborth er mwyn sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu a bod gwelliannau'n cael eu gwneud yn y meysydd cywir.

Caiff yr Unigolyn Cyfrifol ei chefnogi'n dda gan uwch-gyfarwyddwr ac maent wedi meithrin diwylliant gofalgar a chyfeillgar yn y gwasanaeth. Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweiniad a gânt. Mae'r cynrychiolwyr yn cael trafodaethau agored â nhw a dywedodd un ohonynt wrthym, *“[Cyfarwyddwr] and [Unigolyn Cyfrifol] are very easy to talk to and we have a great relationship. I’m upfront and they will always listen and take action”.*

Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd ac maent yn gwerthfawrogi polisi drws agored yr Unigolyn Cyfrifol a'r Cyfarwyddwr yn fawr. Cawsom wybod y gellir codi unrhyw bryderon neu awgrymiadau ac y caiff materion eu datrys yn brydlon. Ceir cyfathrebu effeithiol iawn rhwng aelodau'r tîm, sy'n helpu i sicrhau bod y bobl yn cael gwasanaeth cyson o ansawdd uchel. Mae'r uwch-weithwyr yn cynnal sesiynau trosglwyddo ddwywaith y dydd, lle maent yn trafod anghenion y bobl, yn rhannu syniadau i sicrhau cysondeb o ran gofal ac yn gweithio'n rhagweithiol er mwyn atal materion rhag codi. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o brosesau diogelu ac maent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw bryderon.

Cynhelir y gwiriadau cyn cyflogi angenrheidiol cyn i staff newydd ddechrau gweithio. Mae'r gweithwyr gofal yn cael cyfnod sefydlu cynhwysfawr ac yn cysgodi aelodau profiadol o staff, sy'n eu paratoi ar gyfer eu rôl newydd. Mae'r gweithwyr gofal yn cofrestru ar gyfuniad o gyfleoedd dysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb er mwyn diwallu anghenion penodol y bobl. Mae'r nyrsys yn y cartref yn cynnal eu cofrestriadau â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac mae ganddynt Rifau Adnabod Personol (PIN) cyfredol. Mae'r gweithwyr gofal yn cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yn ennill cymwysterau pellach drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Mae lefelau staffio digonol ar waith i ddiwallu anghenion y bobl a'u helpu i gadw mor iach â phosibl. Mae'r tîm staff cyfan yn ceisio treulio amser yn sgwrsio â'r bobl, a gwelsom sawl enghraifft o sgyrsiau hwyliog a chyfeillgar yn ystod yr arolygiad. Mae'r tîm staff sefydlog a phrofiadol yn cynnig parhad gofal sy'n golygu y gallant ragweld anghenion y bobl yn effeithiol. Wrth drafod eu cydberthnasau â'r bobl, dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *“We have a good laugh together and they seem happy”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/04/2025

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/04/2025